Road Safety Wales
Diogelwch Ffyrdd Cymru
Low Down

Tri mis i fynd

Yn ogystal ag achub bywydau, bydd arafu'r traffig yn cryfhau cymunedau ac yn eu gwneud yn fwy diogel, dywedodd y Dirprwy Weinidog Lee Waters dri mis cyn y daw'r terfyn cyflymder 20mya diofyn i rym.

Bydd y rhan fwyaf o strydoedd yng Nghymru sydd â therfyn cyflymder o 30mya yn newid i 20mya ddydd Sul, 17 Medi a disgrifiwyd y newid hwnnw fel y newid mwyaf i fesurau diogelu cymunedol mewn cenhedlaeth.

Daw'r newid ar ôl pedair blynedd o waith gydag awdurdodau lleol, yr heddlu ac arbenigwyr diogelwch ar y ffyrdd i baratoi'r gyfraith newydd, gan wneud Cymru'r wlad gyntaf yn y DU i newid y terfyn cyflymder diofyn ar ffyrdd lleol.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog sy'n gyfrifol am drafnidiaeth, "Rydyn ni brin tri mis o'r newid mwyaf rydym wedi'i weld yn maes diogelwch y gymuned yng Nghymru mewn cenhedlaeth.

"Yng Nghymru, rydym yn gwneud pethau'n wahanol. Rydym yn gofalu am ein gilydd ac yn ymddiried yn y wyddoniaeth.

"Mae'r dystiolaeth yn dangos bod cerbyd sy'n teithio 30mya yn dal i fynd 24mya yn yr amser y daw car sy'n teithio 20mya i stop.

"Yn ogystal ag achub bywydau, mae gyrru'n arafach yn helpu i greu cymunedau cryfach a mwy diogel – llefydd gwell i fyw ein bywydau ynddyn nhw."

Ychwanegodd y Prif Weinidog, "Bydd ein strydoedd yn dawelach, gyda llai o lygredd sŵn a bydd cerbydau arafach yn rhoi'r hyder i bobl feicio a cherdded a phlant i chwarae yn yr awyr agored.

"Mae'r dystiolaeth o bob cwr o'r byd yn glir – mae gostwng terfynau cyflymder yn gostwng gwrthdrawiadau ac yn achub bywydau.

"Rwy'n hyderus, trwy weithio gyda'n gilydd, y gallwn wneud y newidiadau sydd eu hangen ddaw â budd i ni nawr ac yn y dyfodol."

YN Y RHIFYN HWN:

Tri mis i fynd
Loteri Arolwg Cymru ar y Beic
Agilysis
Teithio llesol
Gwrthdrawiadau ffyrdd wedi'u cofnodi gan yr heddlu
Cystadleuaeth Arwyddion 20mya i Ysgolion
Merthyr Tudful

Loteri Arolwg Cymru ar y Beic

Mae Paul, beiciwr o Goed-duon yn y De, wedi cael ei ddewis ar hap fel enillydd Loteri Arolwg Cymru ar y Beic.

Cafodd unrhyw un oedd wedi cwblhau cwrs â chymhorthdal gan Lywodraeth Cymru ei wahodd i lenwi arolwg a chael eu cynnwys mewn loteri am y cyfle i ennill £250 gan Ddiogelwch Ffyrdd Cymru.

Roedd y cyrsiau gyda chymhorthdal Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

- **Biker Down! Cymru**
- **BikeSafe**
- **Dragon Rider**
- **Cynllun Beicwyr Gwell Powys**
- **Cynllun Beicwyr Gwell Ceredigion**
- **Beic Cyntaf ar y Safle (FBoS)**
- **Ride On**
- **Rider Safe**

Cwblhaodd Paul gwrs BikeSafe a dywedodd: "Dwi wedi trafod y cwrs gyda phob beiciwr dwi'n siarad â nhw, fe ddysges i lawer ac yn sicr mae wedi fy ngwneud i'n feiciwr mwy hyderus, cymwys, a diogel".

Dywedodd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg mai gwella'u sgiliau a'u diogelwch oedd eu cymhelliant dros ddilyn y cwrs, yn enwedig os oedden nhw wedi cymryd hoe rhag reidio ers rhai blynyddoedd.

Pan ofynnwyd iddyn nhw roi enghreifftiau o bethau roedden nhw wedi'u dysgu drwy'r cwrs, roedd lleoliad ar y ffordd, cornelu, arsylwi a goddiweddyd yn themâu cyffredin yn y sylwadau a roddwyd.

Hoffem ddiolch i bawb a lenwodd yr arolwg a chymryd rhan yn y gystadleuaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn dal i roi cymhorthdal i nifer o gyrsiau beicio modur eto eleni ac mae arolwg 2023-24 bellach yn agored.

Cofiwch: Os ydych chi wedi cwblhau mwy nag un o'r cyrsiau hyn a'ch bod chi wedi cael gwahoddiad i roi adborth, llenwch arolwg ar wahân ar gyfer y ddau gwrs fel y cewch chi gyfle arall i ennill £250!

Agilysis i gefnogi Cymru gyda Strategaeth Uchelgeisiol Newydd ar gyfer Diogelwch Ffyrdd

Mae Agilysis wedi'u comisiynu i ysgrifennu strategaeth newydd ar gyfer diogelwch ffyrdd yng Nghymru, gan ddilyn dull system ddiogel sydd â nod gweledigaeth sero.

Mae gan Agilysis hanes cryf o lunio strategaethau diogelwch ffyrdd, ar ôl gweithio eisoes gyda sawl partneriaeth diogelwch ffyrdd rhanbarthol ac maen nhw'n adeiladu ar adolygiadau diogelwch ffyrdd rhyngwladol y mae'r tîm wedi'u cyflawni yn y Dwyrain Canol a'r fframwaith perfformiad ynglŷn â diogelwch ffyrdd yn yr Alban.

Dros y misoedd nesaf, bydd proses chwe cham yn manteisio ar fewnbwn ac arbenigedd rhanddeiliaid ledled Cymru gan sicrhau bod y strategaeth newydd yn hybu dull systemig a chydweithredol, ac arddel cyd-gyfrifoldeb rhwng y rhai sy'n dylunio, adeiladu, cynnal, a defnyddio ffyrdd a cherbydau.

Dogfen ar gyfer y cyhoedd fydd y strategaeth, yn nodi ymrwymiadau Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid, ond bydd hefyd yn gweithredu fel canllaw i bobl ledled Cymru ynghylch beth yw'r camau allweddol er mwyn rhoi'r flaenoriaeth i ddiogelwch a gwerthuso gweithgareddau i fesur effeithiolrwydd.

Llywodraeth Cymru yn dathlu Diwrnod Aer Glân gyda hwb o £58m i deithio llesol

Ers 2018, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu cyllid teithio llesol o £15m i £70m - sydd bellach dros £22 i bob person yng Nghymru, o'i gymharu â gwariant penodol ar deithio llesol yn Lloegr o tua £1 y pen yn yr un cyfnod.

Roedd y Dirprwy Weinidog yn siarad ar ymweliad â Sir y Fflint lle gwelodd drosto ei hun sut oedd pobl yn manteisio i'r eithaf ar lwybr teithio llesol newydd Sandy Lane i Saltney Ferry.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog Lee Waters, "Mae cerdded a beicio yn cynnig ymateb ymarferol a hanfodol i helpu Cymru i gyrraedd ei thargedau amgylcheddol ac iechyd.

"Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) yn rhoi pwysau arnom i ddarparu rhwydweithiau teithio llesol o ansawdd uchel sy'n annog mwy a mwy o bobl i gerdded a beicio yn rheolaidd ar gyfer teithiau yn lle defnyddio car.

"Mae'r cyllid heddiw yn fuddsoddiad sylweddol arall a fydd yn ein helpu i gyflawni cynlluniau uchelgeisiol ledled Cymru sydd wedi'u cynllunio i gysylltu pobl â'u hoff leoedd a'r lleoedd y mae angen iddyn nhw fynd iddyn nhw.

Dywedodd y Cynghorydd Dave Hughes, Aelod Cabinet Cyngor Sir y Fflint ar gyfer gwasanaethau stryd a'r strategaeth drafnidiaeth ranbarthol, "Rwy'n falch iawn o dderbyn cadarnhad ynghylch cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y ddau gynllun pwysig hyn ym maes Llwybrau Diogel mewn Cymunedau sy'n anelu at wella hygyrchedd o fewn Treffynnon a'r Fflint. Nod y cynigion hyn yw gwella'r amodau ar gyfer cerdded a beicio drwy leihau cyflymder traffig, rhoi mwy o flaenoriaeth i gerddwyr ac ehangu troedffyrdd. Trwy ychwanegu seilwaith gwyrdd bydd yr ardaloedd hyn yn creu amgylchedd deniadol a diogel a fydd yn annog mwy o bobl i gerdded a beicio yn fwy aml."

Bydd y £58m newydd yn golygu adeiladu 37 o lwybrau teithio llesol newydd a datblygiad manwl o 22 arall. Bydd hefyd yn cael ei wario ar 30 o gynlluniau Llwybrau Diogel mewn Cymunedau awdurdodau lleol, gyda £3m ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol.

Hefyd, fel rhan o'r gronfa hon, bydd pob un o'r 22 awdurdod lleol yn derbyn isafswm o £500k y gellir ei ddefnyddio ar gyfer datblygu cynlluniau a gwaith llai yn y dyfodol megis mannau croesi newydd, gwaith hyrwyddo a safleoedd parcio newydd ar gyfer beiciau.

Gallwch weld dadansoddiad llawn o'r cyllid ar Cynlluniau sy'n cael eu hariannu yn 2023 i 2024.

Gwrthdrawiadau ffyrdd wedi'u cofnodi gan yr heddlu: 2022

Yn 2022, cofnododd heddluoedd yng Nghymru gyfanswm o 3,312 o wrthdrawiadau ar y ffyrdd, Yn fras, mae'n debyg i'r nifer a welwyd yn 2021 a 23.5% yn llai nag yn 2019.

YSTADEGAU

Gwrthdrawiadau ffyrdd wedi'u cofnodi gan yr heddlu: 2022

Data am ddifrifoldeb yr anafiadau a'r math o ddefnyddiwr ffordd ar gyfer 2022.

Cyhoeddwyd gyntaf: 26 Ebrill 2023

Diweddarwyd ddiwethaf: 26 Ebrill 2023

Arweiniodd y gwrthdrawiadau hyn ar y ffyrdd yn 2022 at 4,442 o anafiadau personol. O'r rhain, cafodd 93 o bobl eu lladd, cafodd 921 o bobl eu hanafu'n ddifrifol a chofnodwyd 3,428 o 'fân' anafiadau.

Yn ystod 2022, digwyddodd dros hanner yr holl wrthdrawiadau ar y ffyrdd (51%) ar ffyrdd 30mya a digwyddodd y gyfran ail uchaf (25%) ar ffyrdd 60mya. Roedd rhannau o ffyrdd â therfyn cyflymder o 20mya yn cyfrif am 6% o'r holl wrthdrawiadau.

Am fwy o wybodaeth, ewch i'r Gwrthdrawiadau ffyrdd wedi'u cofnodi gan yr heddlu: 2022

Celf i dynnu sylw at y terfyn cyflymder diofyn 20mya

Bydd gwaith celf disgybl ysgol o Wynedd yn cael ei ddangos wrth ochr y ffordd ger ysgolion ledled Cymru i annog gyrwyr i barchu'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya sydd ar fin dechrau ar y rhan fwyaf o strydoedd 30mya yng Nghymru, o 17 Medi 2023 ymlaen.

Llwyddodd cystadleuaeth ddiweddar gan Lywodraeth Cymru a Diogelwch Ffyrdd Cymru i ddal dychymyg mwy na 2,000 o artistiaid ifanc dawnus. Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 i Flwyddyn 8, mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru, eu herio i greu dyluniadau, a hynny wrth i Gymru baratoi i weld y cyfyngiadau cyflymder diofyn ar ffyrdd cyfyngedig yn newid o 30mya i 20mya, i wneud strydoedd yn fwy diogel.

Un o'r panel beirniadu a ddewisodd ddyluniad gan Noa Williams, o Flwyddyn 7 yn Ysgol Ardudwy yng Ngwynedd, fel yr enillydd drwyddi draw oedd Margaret Calvert, dylunydd graffig amlwg sydd wedi creu llawer o arwyddion ffyrdd bythgofiadwy yn y Deyrnas Unedig.

Dywedodd Teresa Ciano, Cadeirydd Diogelwch Ffyrdd Cymru: "Mewn ystafelloedd dosbarth a chartrefi ym mhob awdurdod lleol, aeth plant ati i ystyried a thrafod ffyrdd dychmygus i hybu'r datblygiad arloesol yma mewn diogelwch ar y ffyrdd er mwyn lleihau'r risg ar y ffyrdd a diogelu'n cymunedau.

"Cafodd beirniaid y gystadleuaeth dasg anodd iawn; gan arwain at ddewis dyluniad Noa fel yr enillydd cyffredinol haeddiannol. Roedd y dyluniad mor drawiadol nes bod Llywodraeth Cymru hefyd yn ei ddefnyddio yn yr ymgyrch gyfathrebu genedlaethol i godi ymwybyddiaeth o'r newid i 20mya ar strydoedd lle mae pobl yn byw. Hoffem longyfarch Noa, yr enillwyr eraill a'r holl ddisgyblion talentog a gymerodd ran yn y gystadleuaeth."

Gwelliannau diogelwch ffyrdd ysgolion bron wedi eu cwblhau

Mae gwaith bron wedi'i gwblhau ar welliannau diogelwch ffyrdd y tu allan i ddwy ysgol gynradd yng nghanol y dref.

Mae Heol Caedraw yn fynedfa-yn-unig, sy'n golygu mai dim ond pobl sydd angen mynediad i'w heiddo neu weithle y gellir ei defnyddio. Ni ellir defnyddio'r stryd ar gyfer parcio ac eithrio defnydd a ganiateir ar gyfer bysiau ysgol, tacsis a defnyddwyr anabl - ac yna dim ond o fewn cilfachau dynodedig am gyfnod cyfyngedig, fel y nodir ar yr arwyddion ffyrdd.

Mae llinell wen solet ar hyd y rhan fwyaf o hyd y stryd yn dynodi lôn feicio orfodol, gyda pharcio neu yrru y tu mewn iddi wedi'i wahardd. Ar ochr arall y stryd mae llinell ysbeidiol yn dynodi lôn feicio ymgynghorol – mae modd gyrru yn yr ardal yma, ond rhaid rhoi blaenoriaeth i unrhyw feicwyr sy'n ei defnyddio.

Roedd pryderon wedi'u codi am ddiogelwch yn ysgolion cynradd Catholig y Santes Fair a Chaedraw oherwydd nifer y ceir sy'n parcio ar balmentydd ar ffordd sydd â chyfyngiadau mynediad yn unig. Gofynnwyd i drigolion Heol Caedraw gymryd rhan mewn arolwg ar y cynlluniau, ac roedd mwyafrif llethol o'r ymatebion o blaid y cynllun.

Mae'r cynllun hwn yn rhan o flaenoriaethau'r Cyngor i wella diogelwch plant ysgol a'r ddarpariaeth i gerddwyr a beicwyr ddod i mewn i'n tref. Ariannwyd y gwaith gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Trafnidiaeth Cymru fel rhan o gais llwyddiannus am gymorth Teithio Llesol. Mae'r llwybr yn cysylltu â'r bont newydd dros yr afon Taf sydd i fod i agor y mis hwn.